

**LLYWODRAETH CYMRU**  
**DEDDF IS-DEDDFAU LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2012**  
**CANLLAWIAU AR GYFER IS-DEDDFAU ENGHREIFFTIOL SET 4:**  
**FFEIRIAU PLESER A RINCIAU SGLEFROLIO**

### **Cyflwyniad**

1. Deddf leol a wneir gan gorff statudol, megis Cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, o dan bŵer galluogi mewn Deddf Senedd y Deyrnas Unedig neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw is-ddeddf.
2. Mae is-ddeddfau enghreifftiol yn gweithredu fel templed i Gyngorau pan fyddant yn drafftio is-ddeddfau ac yn nodi geiriad priodol ar gyfer is-ddeddfau mewn perthynas â nifer o wahanol bynciau. Fodd bynnag, ni ddylid mabwysiadu'r holl enghreifftiau gyda'i gilydd, ond yn ôl yr angen er mwyn mynd i'r afael â phroblem sy'n bodoli eisoes.
3. Ar ôl i Gyngor gadarnhau bod y broblem y mae angen rhoi sylw iddi yn cael ei chwmpasu gan is-ddeddf enghreifftiol benodol, dylai'r Cyngor ddod o hyd i gopi ohoni ar wefan Llywodraeth Cymru a'i addasu yn ôl ei anghenion. Bydd y nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig yn helpu gyda'r broses drafftio. Dylai Gyngorau hefyd ddilyn y weithdrefn berthnasol o dan Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.
4. Argymhellir y dylai Gyngorau ddilyn yr is-ddeddfau enghreifftiol, er mwyn lleihau'r risg o broblemau drafftio neu osgoi gweithredu is-ddeddfau nad ydynt yn addas at y diben.
5. Dylid darllen y nodyn cyfarwyddyd a ganlyn ynghyd â'r is-ddeddfau enghreifftiol a *'Chanllawiau Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, gan gynnwys y Canllawiau Statudol, i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Gyngorau Cymuned a Thref, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru'*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau hyn i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/topics/localgovernment/local-government-byelaws/?skip=1&lang=cy>
6. Lluniwyd y nodyn cyfarwyddyd hwn yn benodol er mwyn cefnogi'r defnydd o is-ddeddfau enghreifftiol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â ffeiriau pleser a wneir o dan adran 75 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961, fel y'i diwygiwyd gan adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ac adran 20 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

### **Y Pŵer Galluogi**

7. Mae adran 75 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961, fel y'i diwygiwyd gan adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud is-ddeddfau er mwyn rheoleiddio'r defnydd o ffeiriau pleser sydd ar agor i'r cyhoedd; i sicrhau mynedfeydd ac allanfeydd diogel a digonol i mewn i'r fangre ac allan ohoni; i ddarparu ar gyfer atal a rhwystro niwsans a chadw amodau glanweithdra, glendid, trefn a diogelwch cyhoeddus; ac i atal achosion o dân a allai beryglu stondinau etc a ddefnyddir yn y fangre.

8. Nid oes angen i is-ddeddfau a wneir o dan adran 75 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 gael eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012. Nodir y weithdrefn ar gyfer gwneud y cyfryw is-ddeddfau yn adran 6 o'r Ddeddf honno, sydd hefyd yn gosod dyletswydd i ymgynghori ag unrhyw berson (gan gynnwys, lle y bo'n gymwys, gyngor cymuned) y cred yr awdurdod fod y mater yn debygol o fod o ddiddordeb iddo neu effeithio arno.
9. Mae'r is-ddeddfau yn cynnwys gwybodaeth dechnegol gymhleth a manwl yr ystyrir ei bod yn hanfodol ar gyfer cadw diogelwch cyhoeddus. Dylid cynnal safonau unffurf ledled y wlad cyhyd ag y bo hynny'n bosibl er diogelwch y cyhoedd ac oherwydd na ellir disgwyl i'r rheini sy'n gweithredu ffeiriau teithiol ymgyswrtu ag amrywiaeth o gyfundrefnau is-ddeddfau. Nid yw'n ddymunol bod amrywiadau lleol mewn perthynas â materion diogelwch cyhoeddus.

### **Ymgynghori**

10. Mae adran 6 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau sy'n deddfu i ymgynghori ag unrhyw berson (gan gynnwys, lle y bo'n gymwys, gyngor cymuned) y cred yr awdurdod fod y mater yn debygol o fod o ddiddordeb iddo neu effeithio arno.
11. Mae adran 75(9) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 hefyd yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru sy'n bwriadu gwneud is-ddeddf o dan yr adran hon ymgynghori â'r cyrff cynrychioliadol priodol ar faterion yr eir i'r afael â hwy gan yr is-ddeddf arfaethedig. Y cyrff hynny yr ymddengys i'r awdurdod eu bod yn cynrychioli buddiant y rheini sy'n ymgymryd â ffeiriau pleser ac adloniant o dan adran 75 yw'r cyrff cynrychioliadol priodol.
12. Mae adran 75(11) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 hefyd yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gwneud is-ddeddf yn unol ag adran 75(1)(d) ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub perthnasol ar faterion yr eir i'r afael â hwy gan yr is-ddeddf arfaethedig. Yr awdurdod tân ac achub perthnasol yw'r awdurdod tân ac achub o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ar gyfer yr ardal y mae'r is-ddeddf yn gymwys iddi. Mae adran 75(1)(d) yn darparu y caiff awdurdod lleol wneud is-ddeddfau ar gyfer atal achosion o dân a allai beryglu strwythurau a ddefnyddir mewn cysylltiad â ffair bleser, ac ar gyfer lleihau'r risg o'r cyfryw achos o dân, a'i ymlediad, a'i dyletswydd hwy fydd gorfodi'r cyfryw is-ddeddfau. Fodd bynnag, dylid nodi o dan adran 75(1A) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961, ni ellir gwneud is-ddeddf o dan adran 75 mewn perthynas â ffair bleser, i'r graddau bod yr is-ddeddf yn ymwneud ag unrhyw fater y gorfodir neu y gellid gorfodi gofynion neu waharddiadau mewn perthynas ag ef gan neu o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

### **Defnyddio'r Is-ddeddfau Enghreifftiol**

13. Mae geiriau mewn print italig yn rhoi cyfarwyddyd ar sut i addasu'r is-ddeddf enghreifftiol (e.e. "*rhowch enw*") neu'n rhoi disgrifiad manylach o'r hyn a gwmpesir gan yr is-ddeddf enghreifftiol pan fo nifer o is-ddeddfau enghreifftiol yn ymwneud â'r un pwnc.

14. Yn gyffredinol, defnyddir cromfachau sgwâr i nodi:

- (1) geiriau ychwanegol, y gall fod yn briodol eu defnyddio mewn rhai achosion (e.e. “[Y tu allan i'r manau dynodedig]”);
- (2) dewis o eiriau; neu
- (3) “rhifau y bydd angen eu diweddarau, yn ôl pob tebyg, wrth olygu'r set o is-ddeddfau enghreifftiol (e.e. Atodlen [1])

Os bydd yr is-ddeddfau yn cynnwys atodlenni neu fapiau, dylai'r rhain ymddangos cyn sêl y Cyngor.

### **Darpariaethau dehongli**

15. Dylid defnyddio'r ddarpariaeth ddehongli gyffredinol i ddiffinio termau a ddefnyddir sawl gwaith yn nhestun yr is-ddeddfau. Dim ond y diffiniadau yn y rhestr sy'n ymddangos yn nhestun yr is-ddeddfau enghreifftiol a ddewiswyd gan y Cyngor y dylai'r Cyngor eu defnyddio. Os bydd gair a ddiffiniwyd ond yn ymddangos yn nhestun un o'r is-ddeddfau y mae cyngor yn bwriadu ei mabwysiadu, dylid cynnwys y diffiniad hwnnw yn nhestun yr is-ddeddf berthnasol, fel is-baragraff ar wahân os oes modd.

### **Terfynau oedran**

16. Mae adran 75 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 yn galluogi awdurdodau lleol i gynnwys darpariaeth yn yr is-ddeddfau sy'n ymwneud â'r oriau y mae mangreoedd difyrwch ar agor i'r cyhoedd, er mwyn sicrhau diogelwch cyhoeddus, lleihau'r perygl o dân, ac ar gyfer glendid ac osgoi niwsans. Mae tu hwnt i gwmpas yr awdurdodau, felly, i wneud is-ddeddf sy'n gorfodi terfynau oedran neu sy'n eithrio pobl ifanc dan oed. I'r perwyl hwn, ni chynhwysir unrhyw is-ddeddf sy'n ymwneud â therfyn oedran yn yr is-ddeddfau enghreifftiol, ac ni ddylid ychwanegu'r cyfryw is-ddeddf.

### **Oriau Agor**

17. Ni ddylai fod yn ofynnol i reolwr gau'r ffair bleser cyn **9 pm** ac ni ddylid caniatáu iddo ei chadw ar agor ar ôl **canol nos**. Ni ddylai fod yn angenrheidiol ychwaith i ganiatáu i ffair bleser fod ar agor cyn **10 am**. Gall pob awdurdod lleol, fodd bynnag, ragnodi oriau agor i adlewyrchu'r amgylchiadau lleol.
18. Wrth benderfynu pa oriau agor i'w gorfodi ar ffeiriau pleser, dylai awdurdodau lleol roi pwysau dyledus ar unrhyw gyfyngiadau presennol a orfodir fel amodau rhoi caniatâd cynllunio o dan adran 72 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac ystyried a allant wyro oddi wrthynt neu a oes angen iddynt wneud hynny.

### **Atal Tân**

19. O dan adran 75(1)(d) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961, gall awdurdodau lleol yng Nghymru wneud is-ddeddfau ar gyfer atal achosion o dân a allai beryglu strwythurau a ddefnyddir mewn cysylltiad â ffair bleser ac ar gyfer lleihau'r perygl o dân ac ymlediad tân.

20. Fodd bynnag, mae adran 75(1A) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 yn darparu na ellir gwneud unrhyw is-ddeddf o dan adran 75 mewn perthynas â ffair bleser, i'r graddau y mae'r is-ddeddf yn ymwneud ag unrhyw fater y gorfodir neu y gellid gorfodi gofynion neu waharddiadau mewn perthynas ag ef gan neu o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. I'r perwyl hwn, ni chynhwysir is-ddeddfau enghreifftiol y mae Gorchymyn 2005 hefyd yn mynd i'r afael â hwy.

### **Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch) 1996**

21. Bydd darpariaethau Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch) (OS 1996 Rhif 341) yn gymwys lle y bo personau wrth eu gwaith fel y'i diffinnir gan adran 52 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch 1974. Gellir gweld canllawiau ar ofynion y Rheoliadau yn Arwyddion a Signalau Diogelwch - Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch) 1996, Canllawiau ar Reoliadau (Cyfeirnod yr Arolygiaeth Iechyd a Diogelwch (HSE) L64).

### **Arwyddion diogelwch tân**

22. BS 5499 yw'r Safon Brydeinig ar gyfer arwyddion a symbolau graffig diogelwch. Y fanyleb ar gyfer arwyddion diogelwch tân yw Rhan 1 y safon hon a'r fanyleb ar gyfer arwyddion diogelwch tân ymlewyrchol yw Rhan 2. BS 2560 yw'r Safon Brydeinig ar gyfer arwyddion allanfa â golau mewnol. Gellir cael Safonau Prydeinig o'r Sefydliad Safonau Prydeinig, Linford Wood, Milton Keynes, MK14 6LE.

### **Rheoliadau Rhagofalon Tân (Yn y Gweithle) 1997**

23. Bydd darpariaethau Rheoliadau Rhagofalon Tân (Yn y Gweithle) 1997, fel y'i diwygiwyd, yn gymwys lle y mae unrhyw ran o'r ffair bleser yn cael ei defnyddio fel gweithle, fel y'i diffiniwyd gan y Rheoliadau hynny. Gallai cynghorau ddymuno darllen Nodyn Canllaw'r Swyddfa Gartref a HSE, *Fire Safety: An Employer's Guide*.

### **Ffeiriau a Pharciau Difyrwch: Canllawiau ar arferion diogel HSG175 a Parciau Difyrwch: Canllawiau ar arferion diogel HSG175**

24. Mae Arolygwyr HSE yn gyfrifol am orfodi Deddf Iechyd a Diogelwch yn y gwaith etc 1974 ar safleoedd ffair. Mae canllawiau a baratowyd gan HSE ar gyfer y diwydiant yn cynnwys Ffeiriau a Pharciau Difyrwch: Canllawiau ar arferion diogel HSG175 sy'n disgrifio'r mesurau sy'n angenrheidiol i ddiogelu aelodau'r cyhoedd a gweithwyr yn nhermau rheoli iechyd a diogelwch gan wahanol ddeiliaid dyletswydd y gellid dod ar eu traws ar unrhyw safle ffair. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys manylion y gofod atal tân rhwng carafanau llety y cytunwyd arno rhwng Urdd Siewmyn Prydain Fawr a'r Swyddfa Gartref; rhagofalon tân cyffredinol eraill y cytunwyd arnynt â'r Swyddfa Gartref, ac argymhellion ar ddefnyddio trydan yn ddiogel ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr.

### **Cyfleusterau Glanweithdra**

25. BS 6465 Rhan 1 yw'r Safon Brydeinig berthnasol gyfredol ar gyfer cyfleusterau glanweithdra.

## Dirymu

26. Mae testun yr is-ddeddf enghreifftiol hon, y gellir ei defnyddio i ddirymu is-ddeddfau sy'n bodoli eisoes, yn cynnwys nifer o gyfarwyddiadau y gall fod angen ymhelaethu arnynt:

*“rhowch enw”* – yr enw perthnasol fydd enw'r Cyngor a wnaeth yr is-ddeddfau, hyd yn oed os nad y cyngor hwnnw yw awdurdod lleol yr ardal honno mwyach neu os yw bellach yn ddarfodedig.